



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Glastir

Glastir Adfer Coetir

Llyfryn Rheolau

**Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen
Datblygu Gwledig 2014-2020
Fersiwn 4 – Awst 2016**



CYNNWYS

Prif Negeseuon	5
Adran A - Cyflwyniad	6
• Geirfa	7
Adran B – Pwy sy’n gymwys?	8
Adran C – Pa dir sy’n gymwys	8
• Ariannu o Ffynonellau eraill	9
Adran D - Rheolau Adfer Coetir Glastir	10
• Yr Ardal Fwyaf sy'n Gymwys i gael Cymorth o dan gynllun Adfer Coetir Glastir	10
• Gwaith Cyfalaf - Ailblannu	10
• 615 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - uwchben 350 metr	11
• 618 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - rhwng 250 a 350 metr	11
• 619 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - o dan 250 metr	12
• 631 Gwaith Cyfalaf, Coed Llydanddail Brodorol	12
• 632 Gwaith Cyfalaf, Coed Llydanddail Brodorol	13
• Planhigfa ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS)	13
• Planhigfa ar Safleoedd nad ydynt yn Goetiroedd Hynafol (PAWS)	14
• Mannau Agored	14
• Cyfraddau'r Taliadau	14
• Gwaith Cyfalaf Arall	15
• Cychwyn y Gwaith	15
• Rhanddirymiadau	16
• Ymgynghori	16
Adran E - Sut i wneud Cais	17
• Mynegi Diddordeb	16
• Dethol	17
• Cynllun Rheoli Coetir	18
• Cynnig Contract	19

• Hawlio Taliad	19
Adran F – Newid y Contract	20
• Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Contract	20
• Newidiadau i'r Tir	21
• Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)	21
• Newidiadau i Reolau'r Cynllun	21
Adran G – Archwiliadau a Chofnodion	22
• Arolyngion Gweinyddol	22
• Archwiliadau Fferm	22
• Cadw Cofnodion	22
Adran H – Cosbau	23
• Torri'r Contract	23
• Cosbau'r Gwaith Cyfalaf	23
Adran I - Y Drefn Apelio	24
• Y Drefn Gwyno	24
Adran J – Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Prosesu Teg	25
• Rhesymau dros Rannu Data Personol	25
• Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth	26
• Hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998	27
• Gofyn am Ragor o Wybodaeth	28
Adran K – Manylion Cysylltu	28

Prif Negeseuon

- Mae'r Datganiad o Ddiddordeb ar gael i dirfeddianwyr a fydd yn gallu cwblhau'r holl waith cyfalaf a phlannu erbyn 31 Mawrth 2017.
- I fod yn gymwys i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb mae'n rhaid i chi fod yn gallu cadw at y dyddiadau yn y tabl canlynol:

Bydd y Datganiad o Ddiddordeb ffenestr yn agor am	30 Awst 2016
Bydd y Datganiad o Ddiddordeb ffenestr yn cau am	Hanner nos 30 Fedi 2016
Er mwyn bod yn gymwys i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb rhaid i chi allu cwblhau'r holl Waith Sefydlu a Chyfalaf gan	31 Mawrth 2017
Bydd angen i chi wedi gwneud eich cais am Waith Sefydlu a Chyfalaf a gwblhawyd gan	30 Ebrill 2017

- Mae'r ffurflen mynegi diddordeb yng nghynllun Adfer Coetir Glastir wedi cael ei datblygu'n ddigidol ac mae ar gael drwy wasanaeth Taliadau Gwledig Cymru Ar Lein (RPW). Bydd angen Cyfeirif Cwsmer (CRN) arnoch a cyfrif RPW Ar Lein cyn ichi allu cael gafael ar y Ffurflen i Fynegi Diddordeb yng nghynllun Adfer Coetir Glastir. I gael gwybod rhagor am gofrestru gyda RPW Ar Lein neu gyflwyno Ffurflen Mynegi Diddordeb, darllenwch Adran E y llyfryn hwn.
- Dylech ddarllen y Llyfryn hwn a'r Canllawiau - Sut i Lenwi'r ffurflen mynegi diddordeb ar lein cyn ichi ei chyflwyno.
- Dylech sicrhau eich bod yn cyflawni'r holl feini prawf drwy gyfnod llawn blwyddyn y contract ac yna drwy'r cyfnod cynnal a chadw, sef 10 mlynedd ar ôl yr hawliad terfynol.
- Bydd angen ichi baratoi Cynllun Rheoli Coedwig a rhaid i hwnnw gydymffurfio â Safon Coedwigo'r Deyrnas Unedig.
- Bwriedir y Ffurflen Mynegi Diddordeb hon i'r rheini sydd wedi cael trwydded cwmpo coed sy'n cynnwys llarwydd neu Hysbysiad Statudol Iechyd. Yw Nodi, bydd rhaid i'r trwydded cwmpo bod wedi cael ei gymeradwyo ac ei dyroddi. Ni chaiff gais am drwydded cwmpo ei derbyn.

- A fydddech cystal ag ymateb yn brydlon i unrhyw ymholiadau gan Lywodraeth Cymru am eich Ffurflen Mynegi Diddordeb mewn contract Adfer Coetir Glastir. Os na fyddwch chi'n ymateb o fewn yr amser a nodir, mae'n bosibl y bydd oedi cyn cynnig contract Adfer Coetir Glastir ichi.
- Mae Goetiroedd Glastir wedi cael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i unrhyw newidiadau i'r canllawiau ac ymrwymadau Glastir yn Gwlad (www.gwladonline.org) a lle bydd angen, byddwn yn cysylltu busnesau fferm a rheolwyr tir y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt.

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

1. Mae grantiau sy'n cael eu rhoi o dan y cynllun hwn yn gymorth sy'n dod o fewn cwrpas fframweithiau Cymorth gwladwriaethol. Mae Erthyglau 107, 108 a 109 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) yn berthnasol i'r cymorth a roddir ar gyfer datblygiad gwledig o dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (cyf: SA 43465).
2. O'r 01 Gorffennaf 2016 ymlaen bydd gofynion Tryloywder Cymorth Gwladwriaethol, a nodir yn Erthygl 9 Rheoliad 702/2014 y Comisiwn sydd yn datgan bod categorïau penodol o gymorth yn y sectorau amaeth a choedwigaeth ac yn ardaloedd cefn gwlad gydnaws gyda'r farchnad fewnol yn y cymhwysiad o erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn gofyn i bob gwobr o gymorth unigol (am Amaeth) sydd yn uwch na'r trothwy o €500,000 i gael ei adroddi yn uniongyrchol i'r Comisiwn Ewropeaidd pob 6 mis. Bydd y wybodaeth yma'n cael ei gyhoeddi drwy Wefannau Tryloywder Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd.
3. Mae grant sydd yn cael ei arlwyio o dan yr opsiynau canlynol yn y cynllun yma yn gymorth cydymffurfiol oherwydd ei fod yn parchu'r amodau sydd wedi eu nodi yn erthygl 34 a 35 o gytuniad y Comisiwn (UE) Rhif 702/2014 (Rheoleiddiad Rhwysr Rhyddhadau Amaethyddiaeth).

Adran A – Cyflwyniad

Yng Nghymru, mae dros 20% o goetiroedd llarwydd wedi'u heintio gan y pathogen ffwngaid Phytrophthora Ramorum. Mae cynllun Adfer Coetir Glastir wedi cael ei ddatblygu er mwyn ailblannu coetir sydd wedi'u heintio gan Phytrophthora ramorum neu ardaloedd lle y torrwyd llarwydd er mwyn arafu lledaenu'r clefyd. Pan fydd coetir yn cael ei lwyrwgwmpo, bydd cryn gyfle i sicrhau mwy o amrywiaeth yn rhywogaethau'r coed, gan greu coetir mwy cymysg a brodorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hybu amrywiaeth o rywogaethau yng Nghymru er mwyn gwneud ein coetir yn fwy cydnerth ac er mwyn iddynt allu cynnig amrywiaeth ehangach o fanteision.

Mae Adfer Coetir Glastir yn rhan o gynllun Coetir Glastir o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae'n golygu ymrwymiad am 10 mlynedd ar ôl plannu rhywogaethau o goed llydanddail neu gymysgedd o rai llydanddail a chonwydd. Bwriad cynllun Coetir Glastir yw cyflawni'r nodau amgylcheddol a ganlyn:

- Lleihau allyriadau Carbon a Nwyon Tŷ Gwyr.
- Ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a meithrin mwy o gydnerthnedd ar ffermydd ac mewn busnesau coedwigo.
- Rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.
- Cyfrannu at gynaliadwyedd economaidd ffermydd, coedwigoedd a'r gymuned wledig ehangach.
- Amddiffyn y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol gan wella mynediad ar yr un pryd.
- Cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth frodorol Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig cymorth ariannol drwy gynllun Adfer Coetir Glastir i ailstocio coetir y mae Phytrophthora ramorum wedi effeithio arnynt. Detholir ymgeiswyr ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir ar y sail eu bod wedi cael Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol (SPHN) neu lle y bydd rhywogaethau llarwydd yn rhan o'r ardal sydd ar eu trwydded cwmpo.

Bydd angen i ymgeiswyr baratoi Cynllun Rheoli Coedwig sy'n cydymffurfio â Safonau Coedwigo'r Deyrnas Unedig cyn i'w cais gael mynd ymlaen i'w brosesu dan y contract.

Bwriedir y llyfryn hwn ar gyfer coedwigwyr, ffermwyr a rheolwyr tir sy'n bwriadu cyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb mewn cynllun Adfer Coetir Glastir. Nid yw'r manylion hyn yn cynnwys popeth ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu diweddarau.

Mae cynllun Adfer Coetir Glastir yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

Mae cynllun Adfer Coetir Glastir yn cael ei lywodraethu gan Offeryn Statudol Cymru 3222 (w.327) sy'n berthnasol i'r Rhaglenni Datblygu Gwledig, Rheoliadau'r Cyngor (UE) Rhif. 1305/2013, 1303/2013, ac (UE) Rhif 1306/2013, Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 808/2014 ac (UE) Rhif 809/2014 a Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 640/2014 ac 807/2014 (i gyd fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd). Mae copïau o'r Rheoliadau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.wales.gov.uk neu gallwch ofyn am gopïau gan Ganolfan Gyswilt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.

Geirfa

Llain:	mae hyn yn cyfeirio at ardal o goetir neu at ardal o goetir sydd wedi'i chwympo ac sydd yn mynd i gael ei hailstocio.
Coesynnau:	term sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y coed ifanc sy'n cael eu plannu mewn llain.

Adran B – Pwy sy'n gymwys?

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir:

- rhaid ichi fod yn gwsmer cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirif Cwsmer (CRN).
- rhaid i'ch tir fod wedi'i gofrestru gyda System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth Cymru (LPIS).
- rhaid plannu o leiaf 0.25 hectar o dir cymwys.
- rhaid mai chi yn unig sy'n hawlio arian gan gynlluniau Cymorth Ewropeaidd (e.e. y Cynllun Taliadau Sylfaenol a Glastir) ar gyfer y tir.
- rhaid ichi fod yn rheoli'r tir fel rheolwr drwy gydol oes y contract a chyfnod llawn yr ymrwymiad. Os ydych ond yn dal trwydded pori ni fyddwch yn gymwys i wneud cais.
- ni ddylech fod wedi gwneud hawliad yswiriant na bod wedi cael taliad yswiriant am golli coed oherwydd *Phytophthora ramorum*.
- rhaid ichi gyflwyno cynllun Rheoli Coedwig sy'n cyflawni Safonau Coedwigo'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Adran C – Pa dir sy'n gymwys

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir, rhaid i'r tir:

- gynnwys llarwydd neu fod wedi cynnwys llarwydd sydd bellach wedi cael eu cwmpo.
- fod o dan SPHN neu Drwydded Cwmpo.
- fod yn dir sydd heb gael arian grant i'w ailstocio o dan gontract Rheoli Coetir Glastir presennol nac o unrhyw ffynhonnell arall. e.e. Rheoli Coetir Glastir neu Goetiroedd Gwell i Gymru.
- fod wedi bodloni pob caniatâd angenrheidiol gyda rhanddeiliaid a chyrff statudol.
- Peidio cael ei ddefnyddio i hawlio taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin Ewropeaidd gan barti arall.
- gynnwys parseli caeau sy'n 0.1ha neu'n fwy mewn ardal.
- fod wedi'i leoli yng Nghymru.

Ariannu o Ffynonellau eraill

Os ydych chi'n cael taliad o unrhyw ffynhonnell arall am waith o dan gynllun Adfer Coetir Glastir, byddai hyn yn cael ei ystyried yn ariannu dwbl. Er enghraifft, os ydych chi'n cael arian am weithgareddau gan y Gronfa Natur, efallai na fyddai'r ardaloedd lle mae'r gweithgareddau hyn yn digwydd yn gymwys ar gyfer y cynllun Adfer Coetir Glastir oherwydd y posibilrwydd o ariannu dwbl.

Ni allwch wneud cais i gynllun Adfer Glastir os yw'r llain o goetir a ddangosir ar y drwydded cwmpo neu'r SPHN yn rhan o gynllun Coetir Gwell i Gymru ac nad oes hawliad wedi bod eto ar gyfer ailstocio.

Sylwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad ydych yn llofnodi contract ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir sy'n gorgyffwrdd ag unrhyw gytundeb arall ac nad oes dim gwrthdaro rhwng gofynion y cynlluniau.

Os gwelir eich bod yn cael arian o ffynhonnell arall neu wedi cael arian o ffynhonnell arall ar gyfer ymrwymadau o dan gynllun Adfer Coetir Glastir, gallai hyn arwain at gosbau ariannol, gorfod ad-dalu taliadau ac, o bosibl, fe ellid terfynu eich Contract.

Adran D - Rheolau Adfer Coetir Glastir

Os llwyddwch i gael eich dethol ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir, bydd gofyn ichi baratoi Cynllun Rheoli Coedwig sy'n cydymffurfio â Safonau Coedwigo'r Deyrnas Unedig ([Forestry Commission - UK Forestry Standard and Guidelines](#)) Yna, bydd y Cynllun Rheoli Coedwig yn cael ei asesu gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Coedwig, gellir cynnwys yr eitemau Gwaith Cyfalaf cymwys sydd wedi'u rhestru yn eu Cynllun Rheoli yng nghontract Adfer Coetir Glastir. Mae'r adran hon yn rhoi manylion eitemau'r gwaith cyfalaf sydd ar gael o dan gynllun Adfer Coetir Glastir.

Yr Ardal Fwyaf sy'n Gymwys i gael Cymorth o dan gynllun Adfer Coetir Glastir.

Bydd yr ardal fwyaf sy'n gymwys i gael cymorth o dan gynllun Adfer [Coetir](#) Glastir yn cyfateb i ddwywaith ardal y llarwydd a nodir yn yr Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol neu'r Drwydded Cwmpo.

Er enghraifft, os bydd 1 hectar o larwydd yn cael ei ddangos ar eich Trwydded Cwmpo, yr ardal fwyaf sy'n gymwys i gael arian o dan gynllun Adfer Glastiroedd fydd 2 hectar.

Gwaith Cyfalaf - Ailblannu

Mae'r gofynion canlynol yn berthnasol i holl opsiynau ailblannu sy'n Waith Cyfalaf:

- Rhaid i'r holl blannu gael ei wneud yn unol â'r Safonau Coedwigo'r Deyrnas Unedig.
- Rhaid ailblannu o leiaf 2500 coesyn yr hectar.
- Rhaid cynnal a chadw'r coetir sydd wedi'i ailblannu am 10 mlynedd ar ôl dyddiad yr hawliad terfynol. Rhaid i 2500 o goesynnau fod yn fyw ar ddiwedd y cyfnod cynnal a chadw 10 mlynedd neu fod y canopi wedi'i gau. Os na lwyddir i gyflawni'r dwysedd stocio penodedig yn ardal y cynllun drwyddi draw, mae'n bosibl y bydyn rhaid ad-dalu'r taliadau.

Mae pump gwahanol opsiwn ar gyfer Gwaith Cyfalaf ailstocio ar gael o dan gynllun Adfer Coetir Glastir. Mae'r Opsiynau Gwaith Cyfalaf hyn yn cynnwys:

615 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - uwchben 350 metr

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn ar gyfer ailstocio lleiniau lle bydd mwy na 50% o'r llain 350 metr uwchben lefel y môr (e.e. 1.4 ha (54%) o'r llain uwchben 350 metr ac 1.2 ha (46%) o dan 350m). Mae'n dderbyniol rhannu'r llain ar hyd y gyfuchlin berthnasol er mwyn gallu defnyddio'r opsiwn priodol uwchben y llinell ac o dani.

Rhaid plannu rhywogaethau coed llydanddail ar o leiaf 10% o ardal y llain.

Gellir plannu rhywogaethau llydanddail, rhywogaethau conwydd neu gymysgedd o'r ddwy ar weddill ardal y llain (90% ar y mwyaf). Rhaid plannu dwy wahanol rywogaeth fan leiaf, ac ni cheir plannu'r un rhywogaeth ar fwy na 75% o'r llain.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy na 10% o'r llain. Ni chaiff prysgwydd gyfrannu at gyfanswm y rywogaethau coed llydanddail y mae'n rhaid eu plannu.

Bydd Nodiadau Technegol sy'n rhestru'r gofynion ailstocio ar gael ar Wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/topics/environmentcountryside/?lang=cy

618 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - rhwng 250 a 350 metr

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn ar gyfer ailstocio lleiniau lle bydd mwy na 50% o'r llain rhwng 250 a 350 metr uwchben lefel y môr (e.e. 1.4 ha (54%) o'r llain uwchben 250 metr ac 1.2 ha (46%) o dan 250m). Mae'n dderbyniol rhannu'r llain ar hyd y gyfuchlin berthnasol er mwyn gallu defnyddio'r opsiwn priodol uwchben y llinell ac o dani.

Rhaid plannu rhywogaethau coed llydanddail ar o leiaf 10% o ardal yr safle.

Gellir plannu rhywogaethau llydanddail, rhywogaethau conwydd neu gymysgedd o'r ddwy ar weddill ardal y llain (90% ar y mwyaf).. Rhaid plannu tair gwahanol rywogaeth fan leiaf, ac ni cheir plannu yr un rhywogaeth ar fwy na 70% o'r llain.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy na 10% o'r llain. Ni chaiff prysgwydd gyfrannu at gyfanswm y rhywogaethau coed llydanddail y mae'n rhaid eu plannu.

Bydd Nodiadau Technegol sy'n rhestru'r gofynion ailstocio ar gael ar Wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/topics/environmentcountryside/?lang=cy

619 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - o dan 250 metr

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn ar gyfer ailstocio lleiniau lle bydd mwy na 50% o'r llain o dan 250 metr uwchben lefel y môr (e.e. 1.4 ha (54%) o'r llain o dan 250 metr ac 1.2 ha (46%) uwchben 250 metr). Mae'n dderbyniol rhannu'r llain ar hyd y gyfuchlin berthnasol er mwyn gallu defnyddio'r opsiwn priodol uwchben y llinell ac o dani.

Rhaid plannu rhywogaethau coed llydanddail ar o leiaf 10% o ardal y llain.

Gellir plannu rhywogaethau llydanddail, rhywogaethau conwydd neu gymysgedd o'r ddwy ar weddill ardal y llain (90% ar y mwyaf). Rhaid plannu tair gwahanol rywogaeth fan leiaf, ac ni cheir plannu yr un rhywogaeth ar fwy na 70% o'r llain.

Ni cheir plannu Pyrwydd Sitca ar fwy na 40% o'r llain.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy na 10% o'r llain. Ni chaiff prysgwydd gyfrannu at y leiafswm y rhywogaethau coed llydanddail y mae'n rhaid eu plannu.

Bydd Nodiadau Technegol yn rhestru'r gofynion ailstocio ar gael ar Wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/topics/environmentcountryside/?lang=cy

631 Gwaith Cyfalaf, Coed Llydanddail Brodorol

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn yn ei gwneud yn ofynnol plannu'r safle i gyd ag amrywiaeth o rywogaethau Coed Llydanddail Brodorol a rhaid i'r rheini bod yn briodol ar gyfer yr ardal.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy nag 20% o'r llain.

Bydd Nodiadau Technegol sy'n rhestru'r gofynion ailstocio ar gael ar Wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/topics/environmentcountryside/?lang=cy

632 Gwaith Cyfalaf, Coed Llydanddail Brodorol

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn yn ei gwneud yn ofynnol plannu rhywogaethau coed llydanddail brodorol ar 80% o'r safle. Gellir plannu naill ai rhywogaethau coed llydanddail brodorol neu anffroddorol ar yr 20% sy'n weddill.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy nag 20% o'r llain.

Bydd Nodiadau Technegol yn rhestru'r gofynion ailstocio ar gael ar Wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/topics/environmentcountryside/?lang=cy

Planhigfa ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS)

Os yw'r ardal rydych chi'n bwriadu ei hailstocio'n blanhigfa ar safle coetir hynafol a'i bod wedi'i lleoli mewn ardal Coetir - Prif Greiddiau neu Brif Rwydweithiau, rhaid ichi ailstocio'r llain â mwy nag 80% o goed llydanddail brodorol gan ddefnyddio Opsiwn Gwaith Cyfalaf 631.

Os nad yw ardal y blanhigfa rydych chi'n bwriadu ei hailstocio wedi'i lleoli mewn ardal Coetir - Prif Greiddiau neu Brif Rwydweithiau, rhaid ichi ailstocio'r llain â mwy na 50% o rywogaethau coed llydanddail brodorol gan ddefnyddio Opsiwn Gwaith Cyfalaf 631.

Rhaid ailstocio gweddill ardal y safle drwy ddefnyddio un o'r opsiynau Gwaith Cyfalaf (Gwaith Cyfalaf 613, 616, 619, 631 a 632).

Ar gyfer pob Planhigfa ar safle Coetir Hynafol, dylech sicrhau bod yr amrywiaeth o rywogaethau coed llydanddail brodorol yn briodol ar gyfer y safle.

Darperir map digidol o barseli'r System Adnabod Parseli Tir (LPIS) sydd wedi'u ticio ar y sgrin Mynegi Diddordeb (EOI) gan ddangos ardaloedd o Goetir Prif Greiddiau neu Brif Rwydweithiau.

Planhigfa ar Safleoedd nad ydynt yn Goetiroedd Hynafol (PAWS)

Ar safleoedd nad ydynt yn blanhigfeydd ar safleoedd Coetir Hynafol, bydd angen ystyried faint uwchben lefel y môr yw'r lleiniau a'r amrywiaeth o rywogaethau sydd i'w plannu.

Mannau Agored

Mae dwysedd y stocio a ddangosir yn y manylbau plannu wedi'i seilio ar nifer y coesynnau yr hectar a'r rhagdybiaeth yw y caiff yr ardal lle y cwmpwyd coed sydd wedi'i chynnwys yn y contract ei hailstocio'n llawn â choed.

Rhaid mapio ardaloedd o fannau agored/ardaloedd lle nad oes modd plannu yn y coetir sydd yn 0.1ha neu'n fwy a'u heithrio o'r ardal sy'n cael cymorth grant. Mae ardaloedd sydd heb eu plannu o'r blaen sy'n 0.1ha neu'n fwy yn anghymwys ar gyfer cael arian o dan gynllun Adfer Coetir Glastir.

Gellir cynnwys manau agored gwasgaredig a rhai nad oes modd eu mapio (h.y. llai na 0.1ha) yn yr ardal blannu hyd at gyfanswm o 15% o'r ardal i gyd. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd angen nodi hyn ar y Cynllun Rheoli Coedwig. Bydd angen ichi gynyddu nifer y coesynnau ar bob hectar mewn rhannau eraill o'r safle er mwyn gwneud iawn am y tir sydd heb ei blannu ac i sicrhau bod nifer y coed sy'n ofynnol dan y contract yn cael eu plannu.

Cyfraddau'r Taliadau

Mae'r tabl isod yn rhestru cyfraddau'r taliadau ar gyfer gwaith Cyfalaf. Mae'r gwaith a chyfraddau'r taliadau'n gorfod cael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n bosibl y bydd yr eitemau isod a chyfraddau'r taliadau ar eu cyfer yn newid yn sgil y gymeradwyaeth hon.

Gwaith Cyfalaf	Math o Ailstocio	£ / Ha
615	Sylfaenol	£1,900
618	Sylfaenol	£1,900
619	Sylfaenol	£2,300
631	Llydanddail brodorol	£2,770
632	Llydanddail	£2,770

Gwaith Cyfalaf Arall

Yn y tabl isod, rhestrir eitemau Gwaith Cyfalaf ychwanegol sydd ar gael o dan gynllun Adfer Coetir Glastir a chyfraddau'r taliadau ar eu cyfer. Mae'r eitemau hyn ar gyfer paratoi'r safle i alluogi ailstocio a gwaith i amddiffyn yr ardal sy'n dod o dan y Contract rhag pori. Rhaid i'r eitemau'r Gwaith Cyfalaf a chyfraddau'r taliadau gael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n bosibl y bydd yr eitemau a restrir isod a chyfraddau'r taliadau ar eu cyfer yn newid yn sgil y gymeradwyaeth hon.

Rhif y Gwaith Cyfalaf	Disgrifiad	Cyfradd (£)
549	Sedd uchel	£348.33 yr un
595	Ffensio postyn a gwifren a Stocrwydi	£3.48 / m
600	Gât pren meddal	£150 yr un
602	Ffensio rhag ceirw	£3.98 / m
654	Rheoli mieri/prysgwydd - chwistrellu â llaw/o fag cefn	£185 / ha
663	Rheoli Rhododendron/llawryf <1.5m	£3,882.60 / ha
666	Clirio prysgwydd - mecanyddol	£227 / ha
669	Rheoli rhywogaethau ymledol	£1179.00 / ha
670	Rheoli Rhododendron/llawryf <2.5m	£7461.13 / ha

Dim ond at ddiben sefydlu coed y mae taliadau gwaith cyfalaf yn gymwys ar gyfer rheoli Rhododendron/llawryf. Nid yw clirio Rhododendron a llawryf at ddiben atal clefydau'n gymwys o dan y cynllun hwn

Bydd Nodiadau Technegol sy'n rhestru'r gofynion ailstocio ar gael ar Wefan Llywodraeth Cymru.

Rhanddirymiad

Mewn rhai amgylchiadau, mae posibilrwydd y medr caniatáu rhanddirymiad i addasu termau neu dynnu'n ôl gofynion eich contract. Caiff ceisiadau ei asesu yn ôl ei theilyngdod os na fedrwch gyflawni'r holl, neu ran, o'r gwaith erbyn dyddiad cwblhau eich contract.

Rhaid ichi ofyn i Lywodraeth Cymru am rhanddirymiad drwy lythyr cyn gynted ag y bydd problem yn codi sy'n eich atal rhag cwblhau'r gwaith a hynny cyn i'r cyfnod plannu penodedig ddod i ben. Dylech hefyd roi tystiolaeth yn gefn i'ch cais am rhanddirymiad.

Ymgynghori

Os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith ar safle dynodedig neu wrth ymyl safle dynodedig, rhaid darparu pob ymgynghoriad angenrheidiol gyda'r Cynllun Rheoli Coedwig, e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), Ardal Gadwraeth Arbennig (SPC), en Restredig (SAM), Nodwedd Hanesyddol yn yr Amgylchedd (HEF) a Pharc a Gardd sydd wedi neu heb eu Cofrestru.

Mae angen ystyried a oes unrhyw rhywogaethau gwarchodedig (e.e. ystlumod, pathewod) ar y safle ac fe all fod gofyn ymgynghori â'r awdurdod priodol.

Adran E - Sut i wneud Cais

Dethol Mynegi Diddordeb

Detholir y sawl sy'n Mynegi Diddordeb ar sail eu gallu i gyflawni'r meini prawf cymhwysedd, a dibynnu ar y gyllideb a fydd ar gael. Y gyllideb amodol sydd ar gael ar gyfer y DOD yn Adfer Coetir Glastir yma fydd £1 Filiwn. Os na fydd y gyllideb sydd ar gael yn ddigon i gynnig contract i bob ymgeisydd cymwys, bydd Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu'r sawl sydd â Hysbysiad lechyd Planhigion Statudol, wedyn y rheini sy'n dod o fewn parth cyfyngu'r clefyd, yn nhrefn yr ardal fwyaf gyntaf. Parth cyfyngu'r clefyd ar hyn o bryd yw'r ardal yn y canolbarth a'r gogledd lle mae camau rheoli gweithredol ar waith o hyd.

Ar ôl cwblhau'r broses dethol, anfonir llythyr atoch yn cadarnhau a ydych wedi cael eich dethol ar gyfer y rownd hon o Adfer Coetir Glastir neu beidio. Os nad yw eich cais Mynegi Diddordeb wedi llwyddo, anfonir llythyr atoch drwy'ch cyfrif RPW ar lein yn egluro'r rhesymau.

Cynllun Rheoli Coetir

Os bydd eich Mynegiant o Diddordeb yn llwyddiannus, bydd gofyn ichi baratoi Cynllun Rheoli Coetir, a fydd yn rhan o'r sail ar gyfer eich cais Adfer Coetir Glastir. Rhaid ichi gwblhau eich Cynllun Rheoli Coetir a'i ddychwelyd erbyn y dyddiad sydd yn eich llythyr dethol fan hwyraf.

Bydd templed Cynllun Rheoli Coedwig yn cael ei anfon atoch a chanllawiau'n egluro sut i'w lenwi ynghyd â map digidol sy'n dangos y parseli sydd yn eich ffurflen Mynegi Diddordeb a chanllawiau'n dangos sut i anodi'ch map digidol. Rhaid ichi ddefnyddio'r dogfennau hyn. Ni allwn dderbyn templedi cynlluniau a mapiau eraill. Os na fyddwch chi'n defnyddio'r rhai swyddogol, bydd eich cais yn annilys.

Cyn paratoi eich Cynllun Rheoli Coedwig, rhaid ichi ddarllen y canllawiau. Rhaid i'r cynllun gydymffurfio â Safonau Coedwigo'r Deyrnas Unedig ([Forestry Commission - UK Forestry Standard and Guidelines](#)). Felly, efallai y byddai'n beth doeth ichi ofyn am help proffesiynol gan Asiant coetir i sicrhau bod eich cais yn cydymffurfio â'r safonau hyn. Bydd y Cynllun Rheoli Coedwig wedyn yn cael ei asesu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau. Wrth ei asesu, bydd y wybodaeth yn eich cynllun a'r map yn cael ei hystyried a hefyd pa mor gymwys yw'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y cais i gael arian o dan y cynllun Adfer Coetir Glastir.

Bydd yr ardal fwyaf sy'n gymwys i gael arian o dan gynllun Adfer Glastir yn cyfateb i ddwywaith ardal y llarwydd sydd ar yr Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol neu'r drwydded cwmpo. Er enghraifft, os bydd 1 hectar o larwydd yn cael ei ddangos ar eich trwydded cwmpo, yr ardal fwyaf sy'n gymwys i gael arian o dan gynllun Adfer Glastir fydd 2 hectar.

Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Coedwig, gellir cynnwys yr eitemau Gwaith Cyfalaf cymwys sydd wedi'u rhestru yn eu Cynllun Rheoli yng nghontract Adfer Coetir Glastir.

Cynnig Contract

Os bydd eich cais i gynllun Adfer Coetir Glastir yn llwyddiannus, bydd contract Adfer Coetir Glastir yn cael ei gynnig ichi drwy eich cyfrif ar lein sy'n cynnwys yr holl waith neu rywfaint o'r gwaith sydd wedi'i restru yn eich Cynllun Rheoli Coedwig.

Bydd angen ichi dderbyn y contract ar lein o fewn 14 niwrnod ar ôl ichi gael y cynnig. Bydd hyn yn cadarnhau eich bod yn hapus â thelerau ac amodau'r contract. Ni fydd modd derbyn derbyniadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn a byddant yn cael eu gwrthod gan dynnu'n ôl cynnig o gontract Adfer Coetir Glastir.

Ar ôl ichi gael eich dethol, os byddwch chi'n penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'ch cais neu, os byddwch chi'n methu â derbyn y contract o fewn yr amser a ganiateir, ni fyddwch yn gallu gwneud cais o dan gynllun Adfer Coetir Glastir am 2 flynedd arall.

Os penderfynwch chi dynnu'n ôl o'r contract cyn diwedd ymrwymiad y contract (1 flwyddyn ar gyfer Gwaith Cyfalaf, 10 mlynedd ar gyfer Cynnal a Chadw) bydd gofyn ichi ad-dalu'r holl arian rydych wedi'i gael o dan gontract Adfer Coetir Glastir gyda llog.

Os bydd angen unrhyw newidiadau i'r Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn sgil newidiadau i'r rheoliadau, mae'n bosibl y terfynir contract Adfer Coetir Glastir ar ddiwedd 2020.

Hawlio Taliad

Gellir taliadau Gwaith Cyfalaf dim ond yn cael eu gwneud i'r buddiolwr y contract ac ni ellir eu gwneud yn uniongyrchol i'r cynrychiolydd o'r buddiolwr, er enghraifft Asiant Coetiroedd.

Bydd pob taliad o dan gynllun Adfer Coetir Glastir ar y gyfradd gost safonol. Ni fydd hawliadau am Waith Cyfalaf yn cael eu hawlio ar y Ffurflen Gais Sengl. I hawlio gwaith cyfalaf sydd wedi'i gwblhau, rhaid ichi hawlio ar hawlio Gwaith Cyfalaf Ar Lein. Ewch at ganllawiau [Sut i lenwi eich ffurflen hawlio Gwaith Cyfalaf Glastir](#) am gymorth i gwblhau yr hawlio.

Adran F – Newid y Contract

Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Gontract

Wrth arwyddo'ch contract Glastir - Adfer Coetir, rydych yn gwneud ymrwymiad am 10 mlynedd. Os byddwch yn penderfynu gwerthu neu drosglwyddo'ch tir neu ran ohono yn ystod y 10 mlynedd o ymrwymiad, efallai y bydd gofyn ichi ad-dalu'r arian rydych eisoes wedi'i gael neu gael eich cosbi'n ariannol.

Os ydych am drosglwyddo contract Glastir - Adfer Coetir i feddiannydd newydd, rhaid cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Os ydy'r meddiannydd newydd yn dewis cymryd eich ymrwymiad chi o dan gontract Glastir - Adfer Coetir oddi arnoch a bod y tir yn dal i fodloni'r meini prawf gofynnol o ran cymhwysra, rhaid i'r meddiannydd newydd barhau â'r ymrwymiad ar y tir hwnnw am weddill cyfnod y contract. Dylid gofalu fod y meddiannydd newydd yn gwybod am yr ymrwymiad Glastir - Adfer Coetir cyn cytuno i drosglwyddo'r tir dan sylw.

Ar ôl trosglwyddo neu werthu rhan o'r tir, rhaid i unrhyw dir rydych wedi'i gadw ac sy'n dal yn rhan o'ch contract Glastir - Adfer Coetir gwreiddiol barhau i fodloni meini prawf gofynnol o ran cymhwysra. Os nad yw, bydd gofyn ichi ad-dalu pob taliad a wnaed ar y tir hwnnw, ynghyd â'r llog.

Os ydych yn trosglwyddo neu'n gwerthu unrhyw dir sy'n rhan o'ch contract Glastir - Adfer Coetir, yna rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru trwy lythyr o fewn 30 diwrnod ar ôl i hynny ddigwydd. O beidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, byddwch yn debygol o gael eich cosbi.

Os byddwch yn trosglwyddo neu'n gwerthu tir sydd o dan gontract a bod Llywodraeth Cymru'n credu bod amcanion Glastir - Adfer Coetir wedi'u tanseilio o'r herwydd, gallai'r contract gael ei derfynu ac efallai y bydd yn rhaid ichi ad-dalu pob taliad ynghyd â'r llog.

Newid y Tir a'r Gofyn i'n Hysbysu am Newidiadau i'r Tir

Rhaid i chi roi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i'ch caeau o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd. Gallai'r newidiadau hynny gynnwys:

- Cofrestru caeau nad ydynt wedi'u cofrestru gydag IACS o'r blaen (h.y. caeau heb eu cofnodi ar y Ffurflen Gais Sengl (SAF))
- Rhannu caeau yn barhaol
- Uno caeau yn barhaol
- Newid ffiniau caeau
- Newid nodweddion parhaol caeau.

Hefyd, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn y terfyn o 30 diwrnod ar ôl iddo ddigwydd os ydy meddianwyr y tir gan gynnwys perchennog newydd neu denantiaeth newydd, yn newid.

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y newidiadau hyn ar y *Ffurflen Gais Cynnal Caeau (FM)* cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd neu os ydych yn trosglwyddo tir, gallwch roi gwybod i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r cyfrif ar-lein trwy *Rheoli fy Nhir*.

Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Mae Rheoliadau Ewrop yn cael eu newid o dro i dro. Bydd yn rhaid ichi gydymffurfio â'r newidiadau hynny ar ôl i Lywodraeth Cymru eich hysbysu amdany'n nhw.

Newidiadau i Reolau'r Cynllun

Efallai weithiau, bydd angen newid eich contract. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddarau'r amodau rheoli yn sgil ymchwil wyddonol newydd, newid rheolau'r cynllun yn sgil newidiadau i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru neu bennu cyfraddau talu newydd. Byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau yn Gwlad ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk) a lle bo gofyn, yn ysgrifennu atoch chi.

Adran G – Archwiliadau a Chofnodion

Mae Llywodraeth Cymru'n gorfod gwneud yn siŵr bod ffermwyr yn cadw at reolau Glastir - Adfer Coetir. Bydd yn gwneud hynny trwy archwiliadau ar y safle a defnyddio'r Systemau Lleoli Global a lluniau o'r awyr a chan loeren.

Arolygon Gweinyddol

Mae angen i Lywodraeth Cymru gwirio pob hawliad cyn taliad. Yn achos Glastir Adfer Coetir mae hyn yn cynnwys ymweliad i'r safle o leiaf unwaith yn ystod cyfnod y contract, os nad yw e wedi cael ei ddewis am archwiliad llawn yn barod. Bydd ymweliadau yn cael eu cario allan gan swyddog technegol coetir cyn i'r taliad gael ei wneud er mwyn cadarnhau for yr eitemau gwaith cyfalaf wedi cael ei cario allan yn gymwys a rheolau'r cynllun. Fedr eich hawliad gael ei leihau neu ei cosbi (gweler adran gosb)

Archwiliadau Fferm

Bydd angen i swyddogion archwilio gadarnhau'r Gwaith Cyfalaf ar eich daliad a chadarnhau manylion y tir a chywirdeb unrhyw ddogfennau a chofnodion perthnasol..

Gellir cynnal archwiliadau unrhyw adeg o'r flwyddyn ac archwilir yr holl ymrwymadau a rhwymedigaethau y bydd modd eu harchwilio adeg yr ymweliad. Bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff gorfodi'n gwneud eu gorau glas i beidio a tharfu arnoch yn ormodol ond mae rhai archwiliadau'n gorfod cael eu cynnal heb rybudd. Gall archwiliadau gael eu cynnal fwy nag unwaith mewn blwyddyn.

Os byddwch yn gwrthod caniatáu archwiliad neu'n rhwystro'r archwilydd neu'n peidio â rhoi cymorth rhesymol iddo, fe allech golli'ch taliad a chael eich erlyn.

Cadw Cofnodion

Rhaid ichi gadw'r holl gofnodion a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i gadarnhau eich bod wedi rhoi gwybodaeth gyflawn a chywir i ni a'ch bod wedi cadw at eich ymrwymadau.

Bydd gofyn ichi hefyd:

- Roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am eich contract Glastir - Adfer Coetir a hynny o fewn y cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru

- Darparu i Lywodraeth Cymru, ei phersonau â chaniatâd neu ei hasiantwyr, gofnodion, cyfrifon, derbynebaw a gwybodaeth arall gan gynnwys cyswllt â data cyfrifiadur sy'n ymwneud â'ch contract Glastir - Adfer Coetir. Rhoi'r hawl i Lywodraeth Cymru gymryd dogfennau neu gofnodion o'r fath i wneud copïau neu i godi darnau ohonyn nhw.

Adran H – Cosbau

Bydd ffermwyr yn cael eu cosbi pan fydd rheolau Glastir neu ofynion Gwaith Cyfalaf yn cael eu torri.

Torri'r Contract

Bydd swyddogion yn ymweld â'r lleoliadau i gynnal archwiliadau gweinyddol ac archwiliadau yn y fan a'r lle i weld a ydych yn torri contract Glastir ac os gwelir eich bod, cewch wybod trwy lythyr. Lle gwelir eich bod wedi torri'r contract, byddwn yn lleihau a/neu'n atal eich taliadau gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol, mawr, parhaol ac ailadroddus oedd y tramgwydd gan ei gymhwyso i daliadau'r blynyddoedd blaenorol.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n credu bod y tramgwydd mor ddifrifol nad oes modd ei gywiro, gallai derfynu'ch Contract. Mewn sefyllfaoedd difrifol iawn, gallai olygu hefyd eich gwahardd rhag ymuno â chynllun Datblygu Gwledig arall am hyd at ddwy flynedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n asesu tramgwyddau yn ôl safonau dilysadwy sy'n cyfateb i'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun. Mae matrices wedi'i lunio i benderfynu ar lefel y gosb i'w rhoi. Mae'r matrices cosbi a'r safonau dilysadwy i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru)

Cosbau'r Gwaith Cyfalaf

Os ydych yn hawlio taliadau nad ydynt seiliedig ar arwynebedd, er enghraifft gwaith cyfalaf, a bod Llywodraeth Cymru yn pennu nad yw rhan o'r gost neu'r holl gost sydd wedi'i hawlio yn gymwys, ni fydd taliad am y costau anghymwys. Os pennir bod cyfanswm y costau anghymwys yn fwy na 10% o'r costau cymwys, tynnir swm sy'n gyfwerth â chyfanswm y costau anghymwys oddi ar eich taliad.

Os bydd hawliad ffug yn cael ei wneud, neu os bydd meddianwyr y tir yn methu â rhoi'r wybodaeth angenrheidiol, bydd gwaharddiad ar daliadau ar gyfer y flwyddyn dan sylw a bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw symiau sydd eisoes wedi'u talu y flwyddyn honno. Hefyd, byddwch yn cael eich gwahardd rhag cael cymorth o dan unrhyw gynllun Datblygu Gwledig - Amaeth-amgylcheddol a Choedwigaeth – yn ystod y flwyddyn galendr lle gwnaed yr hawliad ffug a'r flwyddyn galendr ganlynol.

Adran I - Y Drefn Apelio

Mae'r broses apelio yng Nghymru yn cynnig trefn apelio annibynnol ichi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau Glastir.

Mae dau gam i'r broses apelio ffurfiol:

- Cam 1: pennaeth y Swyddfa Ranbarthol leol i adolygu'r achos
- Cam 2: Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os bydd y ffermwr yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1). Bydd y Panel Annibynnol yn gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bydd a fydd wedyn yn penderfynu'n derfynol ar y mater.

Daw'r broses apelio i ben pan gaiff penderfyniad y Gweinidog ei gyhoeddi. Nid oes tâl am gam cyntaf y broses ond codir tâl ar gyfer yr ail gam - £50 am wrandawriad ysgrifenedig a £100 am wrandawriad llafar. Bydd hwn yn cael ei dalu'n ôl i'r apeliwr os bydd ail gam y broses yn llwyddiannus neu'n rhannol llwyddiannus.

Rhaid ichi apelio i'ch Swyddfa Ranbarthol leol cyn pen 60 diwrnod ar ôl derbyn penderfyniad a allai effeithio ar eich taliad.

Cewch fwy o fanylion y broses apelio gan eich Swyddfa Ranbarthol.

Y Drefn Gwyno

Byddwn yn delio â chwynion o dan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud cwyn gan eich Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Mae croeso ichi ysgrifennu at unrhyw Aelod o'r Cynulliad am eich cwyn a hefyd at:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,

1 Ffordd yr Hen Gae,

Pencoed

CF35 5LJ.

Adran J – Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Prosesu Teg

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar ffurflen gais Glastir neu unrhyw ddogfen arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â'ch cais i ymuno â chynlluniau Glastir, neu wybodaeth sy'n cael ei chreu neu ei chael o ganlyniad i geisiadau o'r fath. Bydd Llywodraeth Cymru ymhlith pethau eraill yn rhannu peth gwybodaeth ag asiantaethau a chyrrff cyhoeddus eraill ac yn darparu peth i'r cyhoedd ei gweld.

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu ac asesu'ch cais am Glastir - Adfer Coetir. Fodd bynnag, c Llywodraeth Cymru (neu ei hasiantwyr) ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymiaidau amgylcheddol statudol.

Rhesymau dros Rannu Data Personol

Defnyddir yr wybodaeth a geir gan ymgeiswyr at y dibenion canlynol:

- Trawsgydymffurfio a chroeswrio gwybodaeth rhwng partneriaid er mwyn sicrhau nad oes neb yn torri rheolau'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol y maent yn eu gweinyddu
- Gweinyddu ceisiadau
- Cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos y tir sy'n dod o dan y cytundebau
- Llunio adroddiadau ar ddata o wahanol ffynonellau, ar gyfer eu cyhoeddi ar dudalennau gwefan Llywodraeth Cymru
- Paratoi crynodebau ystadegol (gan sicrhau nad yw'n bosibl adnabod unigolion)
- Rhoi gwybodaeth fel bod modd gwneud penderfyniadau ynghylch newid polisïau ac ariannu
- Cysylltu â pherchnogion / defnyddwyr tir mewn argyfwng e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau
- Amddiffyn hawliau ffermwyr mewn cadwraeth tir ac i ateb ymholiadau ynghylch ariannu
- I bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol
- Datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, a'r heddlu, lle bo lles y cyhoedd yn gofyn am hynny

- Cyhoeddi gwybodaeth ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Bydd yr wybodaeth yn cael ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i hymrwymiaidau a'i dyletswyddau o dan:

- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliad (EC) rhif 908/2014 y Comisiwn

Gall aelod o'r cyhoedd felly ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau'r wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i geisiadau o'r fath. Bob tro, wrth wneud, bydd yn cadw at y canllawiau yng Nghod Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae copi o'r Cod i'w weld ar y rhyngwrdd yn:

www.cymru.gov.uk/cyhoeddiadau

Yn ôl Rheoliad (EC) rhif 908/2014 y Comisiwn, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn am y personau cyfreithiol sy'n derbyn taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Cyhoeddir taliadau pawb fydd wedi cael mwy na €1,250 mewn unrhyw flwyddyn. Cyhoeddir yr wybodaeth ar 30 Ebrill bob blwyddyn ar wefan chwladwy a bydd yn cynnwys enw'r busnes a thref agosaf y sawl fydd wedi cael grant gyda manylion y symiau a'r cynlluniau y talwyd y grantiau trwyddynt. Ni chyhoeddir manylion y rheini fydd wedi cael llai na €1,250 mewn blwyddyn. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA: <http://cap-payments.defra.gov.uk/>

Hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Dyma rai enghreifftiau o'r hawliau hyn, er nad yw hon yn rhestr gyflawn:

- Bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanynt yn cael ei phrosesu'n deg a chyfreithlon
- Yr hawl i gael copïau o'r wybodaeth bersonol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru wrthod gwneud hynny weithiau
- Yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro Llywodraeth Cymru rhag prosesu gwybodaeth bersonol os byddai gwneud hynny'n gwneud niwed neu'n achosi gofid
- Yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir

Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar Ddeddf Diogelu Data 1998, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r Ddeddf.

Ni fydd yr wybodaeth yn mynd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd oni bai bod rheswm da dros wneud hynny (e.e. pe bai clefyd yn mynd ar led). Os bydd rheswm da, bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn dal i gael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Gofyn am Ragor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynghylch yr wybodaeth fydd yn cael ei chasglu a sut y bydd yn cael ei defnyddio, os oes gennych bryderon ynghylch cywirdeb eich data personol neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.

Adran K – Manylion Cysylltu

Mae yna wybodaeth bwysig ar wefan Llywodraeth Cymru

www.cymru.gov.uk/amgylcheddachedfngwlad ac yn Gwlad, y cylchgrawn deufisol www.gwladarlein.org.

Dyma'r manylion cysylltu:

Y GANOLFAN GYSWLLT I GWSMERIAID

Taliadau Gwledig Cymru

PO Box 1081

Caerdydd

CF11 1SU

Ffôn: 0300 062 5004

Ffacs: 01286 662193

E-bost: rpwonline@wales.gsi.gov.uk

Cysylltiadau defnyddiol eraill

Ar gyfer tir sy'n SoDdGA, GNG, ACA neu AGA:

CYFOETH NATURIOL CYMRU

d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000

Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Llun–Gwener, 8am - 6pm)

Ymholiadau cyffredinol: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Ar gyfer Henebion Rhestredig / parciau a gerddi cofrestredig:

CADW

Llywodraeth Cymru
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001
E-bost: Cadw@Wales.gsi.gov.uk

Ar gyfer henebion sydd heb eu rhestru a nodweddion hanesyddol:

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd- Powys

41 Broad Street
Y Trallwng
Powys
SY21 7RR
Ffôn: 01938 553670
Ffacs: 01938 552179
E-bost: trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent

Heathfield House
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
Ffacs: 01792 474469
E-bost: enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor,
Gwynedd, LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
Ffacs: 01248 370925
E-bost: gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed

Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,
Sir Gaerfyrddin, SA19 6AF
Ffôn: 01558 823121
Ffacs: 01558 823133
E-bost: info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk